

Y Gwir Anrh. Nadine Dorries AS

Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant,
y Cyfryngau a Chwaraeon

19 Mai 2022

Bil Diogelwch Ar-lein

Annwyl Ms Dorries,

Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru, yr wyf yn Gadeirydd arno, yn ymgymryd ag ymchwiliad i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr ar hyn o bryd. Hoffwn dynnu eich sylw at rai o'n canfyddiadau a gofyn am eich barn ynghylch a allai'r Bil Diogelwch Ar-lein fynd i'r afael â'r rhain a sut bydd yn gwneud hyn.

Mae'r ymchwiliad yn tynnu ar ganfyddiadau adolygiad Estyn (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021); y tystebau ar wefan Everyone's Invited; a'r cryn waith ymchwil ar rywedd, aflonyddu rhywiol a thrais rhywiol rhwng plant a phobl ifanc a wnaed gan yr Athro EJ Renold ac eraill. Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad yn cynnwys "effaith cynnwys a dylanwadau ar-lein ar agweddau pobl ifanc, a chyd-destun ehangach diogelwch ar-lein a deddfwriaeth bosibl yn San Steffan".

Drwy gydol yr ymchwiliad rydym wedi clywed yn gyson bod llawer o blant a phobl ifanc yn cyrchu cynnwys rhywiol amhriodol ar-lein gan ddefnyddio amrywiaeth o lwyfannau ar-lein. Dywedwyd wrthym y gall y cynnwys hwn gael effaith negyddol ar eu dealltwriaeth o'r hyn sy'n gyfystyr â pherthynas rywiol iach a chydysniol. Gall hefyd amlygu plant a phobl ifanc i gasineb a cham-drin ar-lein. Ac – wrth gwrs – gall gwefannau a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gemau a rhwydweithio cymdeithasol, ynddynt eu hunain, fod yn ddull ar gyfer aflonyddu a cham-drin ar sail delwedd.

Ar 27 Ebrill 2022, daeth grŵp o fyfyrwyr coleg i un o gyfarfodydd ein Pwyllgor i gyflwyno fideo yr oeddent wedi'i gynhyrchu a thrafod canfyddiadau ein hymgyngoriad â phlant a phobl ifanc gydag aelodau'r Pwyllgor. Cododd y myfyrwyr nifer o bryderon ynghylch aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Hoffwn dynnu sylw at y canlynol:



- Mae'r cyfryngau cymdeithasol a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol wedi gwneud rhannu delweddau di-gêl ac amhriodol yn fwy cyffredin ymhlith pobl ifanc.
- Mae gan y cwmnïau sy'n gyfrifol am lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gwefannau sy'n cynnwys deunydd pornograffig, llwyfannau gemau a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol ddyletswydd gofal i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag cynnwys amhriodol. I raddau helaeth, rydym wedi clywed pryderon nad ydynt yn cyflawni'r ddyletswydd gofal honno'n effeithiol.
- Yn aml nid yw'n ddigon clir i blant a rhieni pryd y mae gan blatfformau, gwasanaethau neu wefannau penodol derfynau oedran. Lle mae terfynau oedran wedi'u sefydlu ac yn glir, nid ydynt yn cael eu gorfodi'n effeithiol.

Gan gofio hynny, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r llythyr hwn i nodi sut, os o gwbl, y mae'r Bil Diogelwch Ar-lein yn mynd i'r afael â phryderon y myfyrwyr.

Byddwn hefyd yn ddiolchgar pe gallech gefnogi gwaith y Pwyllgor hwn drwy drefnu i'ch swyddogion roi brieff technegol byr i ni mewn sesiwn breifat ar oblygiadau'r Bil Diogelwch Ar-lein i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Os hoffech chi gael eglurhad ynghylch unrhyw un o'r pwyntiau uchod, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill, cysylltwch â chlercod y Pwyllgor (SeneddPlant@Senedd.Cymru). Fel arall, edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Rwyf wedi anfon copi o'r ohebiaeth hon at y myfyrwyr eu hunain, eu darlithwyr, ac at Weinidogion perthnasol Cymru.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.